# Caer Rufeinig Gelligaer - Cyfnod Allweddol 2



Paratowyd y pecyn yma i helpu athrawon Cyfnod Allweddol 2 i integreiddio Gelligaer, hanes y Rhufeiniaid a'r Silure, yn ogystal â maes cyfan Archeoleg ac archwilio ein gorffennol, i gwricwlwm yr ystafell ddosbarth. Gallwch hefyd ddefnyddio'r defnyddiau yma i baratoi ar gyfer ymweliad, neu yn ystod ymweliad, â Chaer Rufeinig Gelligaer.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y Tŷ Weindio, Tredegar Newydd yn cynnig ymweliad â 2 safle – lle bydd dosbarthiadau'n gwneud gweithgareddau wedi'u seilio ar archeoleg ac arteffactau o'r gorffennol yn y Tŷ Weindio, ac yna'n archwilio bywyd y Milwr Rhufeinig a gweddillion y gaer yn ystod ymweliad â Gelligaer. Cysylltwch â'r Tŷ Weindio i gael rhagor o wybodaeth.

Yn y pecyn yma mae Taflenni Athrawon gyda gwybodaeth gefndir am y topigau yn ogystal â thaflenni gweithgaredd i chi eu defnyddio gyda'r disgyblion. Ar-lein (www.romangelligaer.org) fe welwch fap rhyngweithiol a ffilmiau i gefnogi'r cyfleoedd dysgu ymhellach, yn ogystal â'r holl wybodaeth sydd i'w chael yn y pecyn yma. Hefyd, mae'r pecyn yma'n cynnwys Arweinlyfr i'r Gaer a Gelligaer, yn ogystal â thaflenni i'ch helpu i archwilio safle'r Gaer, gan gynnwys Llwybr Cliwiau i ddisgyblion ei ddilyn.

Yn y taflenni gweithgaredd yma mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar

- Iaith a Llythrennedd
- Hanes
- Mathemateg
- Datblygiad Creadigol
- Technoleg Dylunio
- Daearyddiaeth
- Gwyddoniaeth
- Addysg Gorfforol
- Addysg Grefyddol ac ABGI

Gallwch ddefnyddio'r taflenni yma fel man cychwyn ar gyfer cynllunio gweithgareddau dosbarth a gallwch addasu'r deilliannau disgwyliedig neu fanylion y gweithgareddau yn dibynnu ar eich gr_p oedran ac ystod gallu.

Mae'r holl ddefnyddiau yn y pecyn yma wedi'u darparu i'r ysgol eu defnyddio - gallwch eu defnyddio neu eu haddasu yn ôl eich dewis. Gobeithio y byddwch yn mwynhau canfod straeon cudd y Rhufeiniaid yng Ngelligaer, a'r Archeolegydd Edwardaidd a ddaeth o hyd i'r Gaer.

## Adnoddau Ar-lein

Mae gwefan newydd yn cael ei lansio am Gelligaer - www.romangelligaer.org – sy'n cynnwys Parth Dysgu lle bydd yr adnoddau yma i gyd ar gael. Os byddwch yn creu taflenni gwaith neu adnoddau newydd yr hoffech eu rhannu, cysylltwch â'r T_ Weindio os gwelwch yn dda a byddent hwy'n ychwanegu'r rhain i'r wefan.

## Gwefannau defnyddiol eraill

www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/romans

Mae hon yn wefan amrywiol sy'n cynnwys taflenni gwaith y gallwch eu hargraffu, fideos a gweithgareddau ar-lein eraill, yn arbennig y gêm archeolegol "Cloddio a Chanfod – Y Rhufeiniad"

www.twmuseums.org.uk

Er bod y ffocws rhanbarthol yn wahanol, byddai llawer o'r gweithgareddau'n ddefnyddiol iawn. Er enghraifft, mae ymarfer byr ond defnyddiol ar stratigraffi yn yr adran archeoleg a gallech chwarae'r gêm 'merels' ar-lein neu ei ddefnyddio fel templed i'r plant wneud eu fersiwn eu hunain ohono.

www.schoolsliaison.org.uk/kids

Mae gan y wefan hon o Amgueddfa Birmingham ymarfer hyfryd lle gallwch wisgo milwr Rhufeinig a dilyn llinell amser sylfaenol.

www.museumoflondon.org.uk/English/Learning/Kids/

Ymarfer stratigraffi arall sy'n helpu i roi'r Rhufeiniaid yn eu lle cronolegol.

www.museumoflondon.org.uk/museumoflondon/media/microsites/londinium

Mae'r gêm yma'n ffordd hawdd o ddysgu am arteffactau Rhufeinig a'r math o bethau y gellid eu prynu.

www.ltscotland.org.uk/5to14/resources/illustrations/greeksandromans/index

Casgliad o ddarluniau o gymeriadau Rhufeinig y gellir eu lawrlwytho.

www.resourcesforhistory.com/dolaucothi_gold_mine.htm

Yn cynnwys map o'r Gymru Rufeinig sy'n dangos Gelligaer.

www.worldtimelines.org.uk/world/british_isles/wales/AD43-410

Llinell amser dda i Gymru Rufeinig, gan gynnwys trechu'r Silures.

## Cynnwys y Ffolder

### Taflenni Gweithgaredd

- Carreg o'r Porth
- Lladin yn Dosbarth
- Grid Archeolegol
- Dilyn Gorchmynion
- Rhifau Rhufeinig
- Gwneud Mosaig
- Y Ditectif Sbwriel
- Posau Rhif
- Disgrifiadau a Lluniau
- Awydd bod yn Filwr.....?
- Diwrnod ym Mywyd Milwr
- Archeoleg Bwyta
- Enwau Lleoedd Rhufeinig
- Ffeithiau Rhyfedd am y Rhufeiniaid
- Oedd ganddo....?
- Chwilair Offer y Milwr
- Gwneud Bwla
- Y Misoedd Rhufeinig

### Deunyddiau Atodol i Athrawon

- Caer Rufeinig Gelligaer
- Milwyr Ategol
- Termau Lladin
- Effaith Caer Gelligaer ar yr Ardal
- Bwyd Rhufeinig
- Ryseitiau Rhufeinig
- Y Silures


### Wedi'i gynnwys hefyd

- Arweinlyfr Caer Rufeinig Gelligaer a Gelligaer, Lle mewn Hanes (Mae'r pdf Cymraeg i'w gael ar www.romangelligaer.org)
- Cerdded o amgylch Caer Rufeinig Gelligaer – taflen wybodaeth a llwybr cliwiau

# Caer Rufeinig Gelligaer








Er bod y fyddin Rufeinig wedi dechrau goresgyn Prydain yn 43 O.C., roedd y gwrthsafiad cryf gan y Silures (y llwyth Celtaidd lleol) wedi atal yr ardal yma rhag cael ei goresgyn yn llwyr tan oddeutu tri deg o flynyddoedd wedyn.

I ddiogelu eu safle, adeiladodd y Rhufeiniaid rwydwaith o gaerau a ffyrdd. Mae'n debyg bod y gaer gyntaf yng Ngelligaer wedi'i hadeiladu oddeutu 75 O.C., o bren a phridd yn bennaf bryd hynny. Cafodd y gaer garreg lai, y mae olion o'i gweddillion i'w gweld o hyd, ei hadeiladu oddeutu tri deg o flynyddoedd wedyn yn ystod teyrnasiad yr Ymherodr Trajan. Mae'r wybodaeth yma i'w gweld ar y garreg gyda'r arysgrif arni a ddaeth o'r porth de-ddwyreiniol.

Roedd ar y ffordd rhwng Caerdydd a'r Gaer (ger Aberhonddu). Y ddwy gaer agosaf ati oedd y rhai yng Nghaerffili (6 milltir i'r de) a Phenydarren ym Merthyr Tudful (8 milltir i'r gogledd orllewin).

Cawsai ei gwarchod gan filwyr ategol dan arweiniad yr Ail Leng Awgwstaidd yng Nghaerleon (Isca). Mae'n debyg mai cohors quingenaria peditata oedden nhw – sef uned o 500 o w_r traed. Roedd rhai unedau ategol yn cynnwys gw_r traed a gw_r meirch ond mae rhai pobl wedi awgrymu mai dim ond gw_r traed oedd yng Ngelligaer.

Roedd y gaer yn siâp sgwâr bras ac yn gorchuddio tua 3 erw o dir. Roedd ei chynllun yn nodweddiadol o gaerau eraill tebyg. Cafodd ei hadeiladu ar esgair o dir rhwng Cymoedd Taf a Rhymni, felly roedd yr olygfa eang oedd ganddi dros y darn o gefn gwlad oedd o'i chwmpas yn fanteisiol iawn i'r bobl oedd yn ceisio ei hamddiffyn.

Roedd pedwar porth dwbl siâp bwa ganddi i bobl fynd i mewn iddi ac roedd wedi'i hamddiffyn yn dda. Roedd ffos lydan y tu allan iddi ac roedd ganddi ragfur o bridd gyda wal garreg ar y ddwy ochr iddo. Roedd gan y wal dyrau cornel a thyrau eraill yma ac acw ar ei hyd.

Roedd y milwyr yn byw mewn chwe bloc o farics. Yng nghanol y gaer roedd y pencadlys a, gerllaw hwnnw, roedd cartref y cadlywydd. Ymysg yr adeiladau eraill roedd gweithdy gyda buarth, dwy ysgubor ac ystafelloedd oedd mae'n debyg yn stordai a stablau. Y tu allan i'r brif gaer ond y tu mewn i estyniad caerog roedd y baddondy. Gerllaw'r gaer roedd maes parêd y gallent ei ddefnyddio ar gyfer diwrnodau dathlu crefyddol a dril milwrol.

Parhaodd pobl i ddefnyddio'r gaer hyd flynyddoedd hwyr yr ail ganrif ac mae tystiolaeth i ddangos fod pobl wedi dod yn ôl i fyw yno ar ryw gyfnod rhwng y drydedd ganrif hwyr a chanol y bedwaredd ganrif. Does dim llawer o dystiolaeth ar gyfer y cyfnod yma felly mae'n amhosibl dweud a oedd wedi'i defnyddio gan filwyr neu gan bobl gyffredin. Does neb yn gwybod pryd y gadawyd y gaer yn wag am y tro olaf.

# Y Silures







Cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd, y llwyth amlycaf yn yr ardal o amgylch Gelligaer oedd y Silures.

Cyfeiriwyd atynt yng ngwaith Plinius, Ptolemaeus a Tacitus, yn ymwneud yn bennaf â'u natur ryfelgar.

Mae'n debyg mai eu tiriogaeth oedd yr ardal lle mae Morgannwg, Gwent a de Powys heddiw. Cawsent eu disgrifio fel pobl gwallt cyrliog gyda naill ai groen tywyll neu wedd writgoch.

Nhw oedd un o'r grymoedd cryfaf a wynebodd y fyddin Rufeinig. Hyd yn oed pan drechwyd Caradog (Caractacus), pennaeth y Catuvellauni a ddaeth yn arweinydd rhyfel arnynt, parhaodd y bobl yma i ryfela yn erbyn y Rhufeiniaid hyd oddeutu 78 OC.

Galwodd Tacitus nhw yn *"bobl naturiol ffyrnig"*.

*"Nid oedd terfysgaeth yn cael unrhyw effaith arnynt, na thosturi chwaith; roeddent yn dyfalbarhau mewn rhyfel a dim ond llengoedd oedd yn gwersylla yn eu gwlad a ddistawodd y bobl yma."*

Blynyddoedd ar ôl gorchfygu Caradog hyd yn oed, dywedodd un awdur "...cafodd y Rhufeiniaid eu trechu a'u gyrru ar ffo dro ar ôl tro gan y Silures yn unig."

Yn ogystal â bod yn rhyfelwyr cryfion, roeddent yn fasnachwyr ac yn enwog am eu sgiliau gyda cheffylau. Ar ôl y goncwest, mae'n ymddangos bod nifer o ddynion Silwraidd ifainc wedi dod yn w_r meirch ategol. Ond redden nhw'n fwy na dim ond marchogion da – mae tystiolaeth hefyd i ddangos eu bod yn defnyddio cerbydau wedi'u tynnu gan geffylau. Mae hyn yn awgrymu bod rhyw fath o rwydwaith ffyrdd i'w gael mae'n debyg hyd yn oed cyn cyfnod y Rhufeiniaid. Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd eu bod yn hoff o addurniadau, ac mae'n ymddangos eu bod yn ffafrio'r lliw coch.

Ymhob un o'r llwythau Celtaidd, y bobl bwysicaf mewn pentref oedd y Derwyddon, y penaeth, y crefftwyr (yn enwedig y gweithwyr metel) a'r rhyfelwyr. Roedd y mwyafrif o'r llwyth yn ffermwyr yn anad dim – yn darparu'r bwyd ar gyfer y pentref drwy edrych ar ôl y caeau a'r anifeiliaid. Roeddent hefyd yn darparu'r gwlân hanfodol ar gyfer y dillad. Oddi tanynt hwy roedd y bobl gaeth. Dyma oedd y caethweision. Byddai rhai ohonynt wedi cael eu geni i'r sefyllfa honno, a byddai eraill wedi cael eu cipio o lwythi eraill.

# Effaith y Rhufeiniaid ar yr Ardal



Cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd, roedd yr ardal o amgylch Gelligaer yng nghanol tiriogaeth oedd yn perthyn i lwyth o Oes yr Haearn o'r enw'r Silures. Doedden nhw ddim yn llwyth hawdd eu trechu.

*"... roedd Julius Frontinus, yn ddyn mawr, cyn belled ag y gallai deiliad i ymherodr fod yn ddyn mawr, ac roedd yn ysgwyddo ac yn cynnal y baich a roddwyd arno; roedd ei arfau'n tawelu'r Silures, pobl bwerus a rhyfelgar; llwyddodd i drechu nid yn unig ddewrder y gelyn ond hefyd anawsterau ffisegol eu tir."* (Tacitus Agricola xvii.2)

Yn gyffredinol, unwaith yr oedd y Silures wedi'u tawelu, bu'r Rhufeiniaid yn eu trin nhw fel y byddent yn trin y trigolion mewn rhannau eraill o'r Ymerodraeth. Fel y gwnaethent gyda grwpiau eraill yr oeddent wedi'u gorchfygu, datganodd y Rhufeiniaid bod tiroedd y llwythi wedi'u fforffedu. Roeddent hefyd yn defnyddio llawer ar eu defnyddiau crai a'u cyflenwadau bwyd. Ond, gallai gwrthsafiad rhyfelgar y Silures esbonio pam roedd y Rhufeiniaid yn hir yn rhoi statws llwyth hunanlywodraethol iddynt.

Nid oedd llawer o'r bobl gyffredin wedi gweld eu bywydau'n newid gymaint â hynny – roedd llawer ohonynt yn dal i fyw mewn tai crwn traddodiadol ac yn dal i ffermio gan ddefnyddio'r hen dechnegau. Roedd y newidiadau'n llawer mwy dramatig i'r bobl oedd ar frig y gymdeithas.

## Gweinyddiaeth

Roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio arweinwyr lleol fel gweinyddwyr (e.e. ynadon) ac roeddent wedi sefydlu canolfannau gweinyddol ar gyfer y gwahanol ardaloedd llwythol. Byddai'r Rhufeiniaid yn rhoi bri a phwysigrwydd cymdeithasol fel gwobrau i bobl ac roedd hyn yn tueddu i wneud yr arweinwyr yn fwy parod i gydweithredu â nhw.

Yn ôl Dr. M. Ibenji, *"Roedd Rhufain yn rheoli ei thaleithiau drwy lwgrwobrwyo'r bobl elitaidd lleol. Byddent yn cael pŵer, cyfoeth, swydd a statws ar yr amod eu bod yn cadw'r heddwch ac yn mabwysiadu ffyrdd Rhufeinig. Os byddech yn cymryd enw Rhufeinig, yn siarad Lladin ac yn byw mewn fila, byddech yn siŵr o dderbyn offeiriadaeth a safleoedd pwerus yn lleol."*

## Masnach a Diwydiant

Roedd y Celtiaid yn masnachu gyda masnachwyr o diroedd eraill cyn i'r goresgynwyr Rhufeinig gyrraedd. Roedd yr arweinwyr Celtaidd yn copïo eu meistri Rhufeinig felly roeddent yn mewnforio eitemau moethus megis gwin Rhufeinig, eu tlyswaith a'r ffasiynau diweddaraf mewn crochenwaith. Roedd yr eitemau fyddai'n cael eu hallforio'n cynnwys tun, gwartheg, grawn a chŵn hela. Ymysg y diwydiannau lleol oedd yn ffynnu roedd crochenwaith a nwyddau haearn.

## Planhigion

Mae'r Rhufeiniaid yn adnabyddus am gyflwyno amrywiaeth enfawr o blanhigion – nifer ohonynt ar bwrpas a rhai'n ddamweiniol wrth iddynt gario hadau ar eu hesgidiau a'u dillad o rannau eraill o'r Ymerodraeth. Mae llawer o'r planhigion sy'n dal i dyfu o amgylch Gelligaer heddiw yn rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y Rhufeiniaid. Cafodd hyn effaith fawr ar ffermio ac ar y bwyd roedd pobl yn ei fwyta.

## Ffyrdd Rhufeinig

Yn uno'r caerau a'r trefi â'i gilydd roedd y ffyrdd Rhufeinig. Roedd un ohonynt yn pasio drwy'r fan lle mae Gelligaer heddiw. Mae pobl yn cymryd yn ganiataol bod yr holl ffyrdd Rhufeinig yn syth, ond mewn rhannau niferus o Gymru (ac ardaloedd eraill o Brydain) doedd hynny ddim yn opsiwn realistig. Pan fyddwn yn siarad am y ffordd fawr, roedd y Saesneg *'highway'* yn llythrennol gywir – roedd y ffyrdd wedi'u codi'n rhannol ar y defnydd oedd wedi'i gloddio o'r ffosydd oedd yn rhedeg i lawr ochrau'r ffyrdd. Dylid cofio, fodd bynnag, bod nifer o'r ffyrdd Rhufeinig yn dilyn llwybr y ffyrdd cynharach a adeiladwyd gan yr amrywiol lwythi lleol.

## Trefi

Yn ogystal ag annog datblygiad trefi gerllaw safleoedd milwrol, roedd y Rhufeiniaid yn hoffi i'r arweinwyr Celtaidd adeiladu plastai trefol a hyd yn oed yn creu trefi yn sylfaenol ar gyfer milwyr oedd wedi ymddeol. Y brif dref i sifiliaid yn ardal y llwythau oedd Venta Siluria (Caerwent). Er bod trefi mor bwysig i'r Rhufeiniaid, does dim tystiolaeth o anheddiad dinesig mawr gerllaw Gelligaer er bod ficws anffurfiol o sifiliaid gerllaw'r gaer mae'n debyg. Roedd y mannau yma'n bentrefi i sifiliaid oedd yn cynnwys siopau, tai a gweithdai oedd wedi'u hadeiladu mor agos at y gaer ac y byddai'r cadlywydd lleol yn ei ganiatáu. Roeddent yn darparu nwyddau a gwasanaethau na fyddai ar gael fel arfer yn y byd milwrol.

Yn gyffredinol, yn y trefi yr oedd mannau hamddena'r sifiliaid Rhufeinig megis y baddonau cyhoeddus a chanolfannau adloniant. O fewn oddeutu deng milltir i'r trefi hefyd yr oedd y filâu mwyaf (ffermydd). Mewn gwirionedd, y filâu oedd cartrefi'r boblogaeth frodorol fwy cyfoethog oedd wedi'u Rhufeineiddio. Roedd gan nifer o'r rhain y 'gwres canolog' Rhufeinig enwog ac weithiau roeddent wedi'u haddurno'n fanwl (e.e. mosaig).

## Merched

Yn gyffredinol, roedd gan ferched lai o ryddid a llai o hawliau cyfreithiol dan y Rhufeiniaid nag oedd ganddynt cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd. Dan y gyfraith, eu prif ddyletswyddau oedd geni a magu plant. Roeddent yn byw dan lawer mwy o gyfyngiadau na'r dynion – roedd hi hyd yn oed yn anghyfreithlon iddynt yfed gwin. Roedd y Rhufeiniaid yn cael rôl y merched Celtaidd yn weddol anodd ei deall. Roeddent yn sôn am eu cryfder a'u ffyrnigrwydd ond maent hefyd wedi cofnodi'r ffaith eu bod yn gweithredu fel cyfryngwyr a barnwyr mewn dadleuon milwrol a gwleidyddol. Roeddent hefyd yn gweithio fel diplomyddion weithiau ac mae hynny o dystiolaeth sydd ar ôl yn sicr yn awgrymu y gallent fod yn Dderwyddon.

## Bwyd a diod

Cafodd llawer o fwydydd newydd eu cyflwyno gan y Rhufeiniaid ond roedd yr hyn y byddech yn ei fwyta yn dibynnu ar eich safle mewn cymdeithas. Roedd seigiau pysgod yn boblogaidd iawn, gan gynnwys y sawsiau enwog garum a liquamen - a phrif gynhwysion y rhain oedd perfeddion pysgod wedi eplesu! Mae pobl yn derbyn yn gyffredinol mai'r Rhufeiniaid oedd wedi cyflwyno cigoedd megis cyw iâr a nifer o adar helwriaeth. Roeddent hefyd yn mewnforio ceirw. Dros amser, daeth yr eitemau newydd yma'n rhan o'r diet lleol.

Yng nghaer Gelligaer, roedd dwy ysgubor i storio grawn oedd yn rhan hanfodol o ddiet milwr. Heblaw hyn, ni allwn fod yn sicr beth oedd diet y milwyr yng Ngelligaer ond, o edrych ar safleoedd eraill rydym yn gwybod bod milwyr yn cario bacwn, tac caled a math o win sur gyda nhw. Pan oedden nhw'n byw mewn caerau rydym yn gwybod eu bod yn bwyta cig eidion, hwyaid, pysgod cragen, cig dafad ac amrywiaeth o wahanol lysiau yn ogystal ag anifeiliaid gwyllt lleol, yn cynnwys tyrchod daear, llygod y dŵr ac afancod. Roeddent hefyd wedi dechrau mwynhau cwrw!

# Bwyd a Bwyta Rhufeinig



Mae *Celf Coginio* gan Apicius yn dyddio yn ôl i'r cyfnodau Rhufeinig – ac yn debyg i'r llyfrau coginio cynharaf, ni ddefnyddiwyd unrhyw fesuriadau yn y ryseitiau, felly gallai'r cogydd ei hun ddewis sut i gydbwyso'r cynhwysion.

Roedd Plinius yr Henuriad wedi sôn cryn dipyn am y planhigion gardd oedd yn cael eu tyfu ar gyfer eu bwyta. Yn ei farn ef, bresych oedd y llysieuyn pwysicaf fel bwyd ac fel meddyginiaeth. Soniodd hefyd am y *"planhigyn dŵr"* y gwneir bara lawr ohono - rhywbeth sydd efallai wedi bod yn y diet Cymreig ers cynhanes.

Erbyn y cyfnodau Rhufeinig, roedd y gwahaniaeth rhwng bara gwyn a bara brown wedi dod yn amlwg yn barod ac roedd statws uwch gan fara gwyn. Roedd graneri yng Ngelligaer.

Ymysg y bwydydd newydd a gyflwynwyd gan y Rhufeiniaid roedd ieir, combács, ffesantod, petris a pheunod. Roedd pobl yn cadw ac yn bwyta gwyddau yn barod. Roedd seigiau poblogaidd eraill yn cynnwys pathewod wedi'u stwffio, cig carw, malwod wedi'u bwydo ar laeth ac omledau mêl. Mewn un wledd Rufeinig, gyrrwyd moch byw i mewn a gwahoddwyd y cwmni i ddewis pa un yr hoffent ei fwyta. Ymysg y straeon eraill am y gwledda mwyaf mawreddog roedd un lle gweinwyd 200 o ymenyddiau estrysod ac un arall lle syrthiodd petalau rhosod o'r nenfwd. Cyfeiriwyd hefyd at amser pan weiniwyd pys wedi'u gwasgaru â llwch aur !

Roedd pysgod yn boblogaidd gyda'r Rhufeiniaid. Yn ogystal â'r bwyd y byddwn ni'n ei ystyried yn bysgod, roedd morfilod, dolffiniaid, ceffylau môr, octopws, ac ati. Roedd sawsiau'n boblogaidd hefyd a chynhyrchwyd y sawsiau liquamen a garum mewn meintiau mawr mewn ffatrïoedd. Y prif gynhwysyn yn y rhain oedd perfeddion pysgod wedi'u gwasgu a'u heplesu.

Roedd y Rhufeiniaid yn dewis lledorwedd wrth fwyta, gan bwyso ar y fraich neu'r penelin chwith a byddai honno neu hwnnw wedi'i chynnal/gynnal gan glustog. Yn debyg i'r cenedlaethau niferus a ddaeth ar eu holau, byddent yn bwyta'r mwyafrif o fwydydd gyda'u bysedd. Roedd hi'n arferol iddynt ymolchi rhwng y cyrsiau. Byddent yn defnyddio cyllyll a llwyau hefyd ond ni chafwyd y fforc fwyta am ganrifoedd lawer. Un o'r offer amlycaf oedd y *"llwy wystrys"*. Fel mae'r enw'n ei awgrymu, byddent yn defnyddio'r pen miniog i bigo pysgod cragen allan o'u cregyn; ac mae'n debyg y byddent yn defnyddio'r pen crwn i fwyta wyau. Mae gwaith cloddio yng Nghymru wedi datgelu llawer iawn o weddillion pysgod cragen.

# Ryseitiau Rhufeinig

Cofiwch nad oedd ryseitiau Rhufeinig yn cynnwys mesuriadau felly roedd maint y cynhwysion a roddwyd yn y bwyd yn dibynnu ar flas personol.

Y syniad tu ôl i'r ryseitiau yw rhoi cyfle i'r plant baratoi prydau posibl ar gyfer gwledd Rufeinig yn yr ystafell ddosbarth lle, efallai, y gall grwpiau baratoi bwyd yn y bore ac y gall bawb fwyta yn y prynhawn.

Gellir ychwanegu at y prydau yma gydag eitemau sydd ar gael yn rhwydd megis bara gwyn ac olewau. Os yw coginio'n broblem gallech addasu rhai o'r seigiau – er enghraifft, yn lle ffrïo'r datys wedi stwffio, gallech eu gweini gyda mêl wedi'i daenu drostynt. Yn yr un modd, gellid defnyddio selsig wedi'u coginio o flaen llaw ar gyfer y selsig gyda chnau pinwydd.

## DATYS WEDI'U STWFFIO

- Datys
- Cnau almon, cnau cyll (1 i bob datysen) – wedi tynnu'r plisg
- Pupur
- Halen
- Mêl (3 llwy fwrdd ar gyfer bob 6 datysen)

Tynnwch y cerrig o'r datys a rhoi un gneuen ymhob un gydag ychydig o bupur. Rholiwch y datys mewn halen.

Twymwch fêl mewn padell ffrïo a ffrïo'r datys dros fflam weddol uchel.

## SELSIG GYDA CHNAU PINWYDD

- Selsig
- Cnau pinwydd
- Olew
- Garlleg

Y ffordd hawsaf o baratoi'r rhain yw torri selsig parod yn gylchoedd, tua modfedd o hyd.

Gwthiwch gneuen pinwydd i mewn i'r selsig.

Ffrïwch mewn ychydig bach o olew gyda garlleg wedi'i dorri'n fân.

## CIWCYMER WEDI STIWIO

- 1 ciwcymer mawr
- 1/3 cwpan o finegr gwin gwyn
- 1/3 cwpan o olew olewydd
- 1 llwy fwrdd o fêl
- Halen

Piliwch y ciwcymer a'i dorri'n ddarnau mawr

Mudferwch gyda'r cynhwysion eraill nes y bo'n feddal.

## BARA MELYS WEDI'I FFRÏO

- Bara (defnyddiwch fara gwyn os ydych eisiau creu saig aristocrataidd)
- Llaeth
- Mêl
- Olew olewydd neu ymenyn

Torrwch y bara'n dafellau a thynnu'r crystiau.

Dipiwch y bara mewn llaeth.

Ffrïwch mewn olew neu ymenyn.

Taenwch fêl drosto tra bo'n boeth.

## MADARCH MÊL

- Madarch
- Dŵr
- Finegr gwin coch
- Mêl
- Halen

Heat water, wine and honey.

Add mushrooms and boil until soft.

Add salt.

## WYAU WEDI'U BERWI GYDA CHNAU PINWYDD

- Wyau
- Cnau pinwydd
- Finegr
- Mêl
- Pupur
- Marchbersli (os yw ar gael)

Gorchuddiwch y cnau pinwydd gyda chymysgedd o fêl a finegr (2/3 o finger i 1/3 o fêl) a'u gadael i fwydo.

Berwch yr wyau a'u torri yn eu hanner.

Rhowch yr wyau i orwedd mewn dysgl a'u gorchuddio gyda'r cymysgedd.

Ychwanegwch y pupur a'r marchbersli.

# Caer Rufeinig Gelligaer






Isod mae ychydig o eiriau Lladin am eitemau bob dydd y gallech ddod o hyd iddynt mewn ystafell ddosbarth. Pwrpas y cyfieithiadau yw helpu gyda, neu ychwanegu at, y daflen gweithgaredd sy'n ymwneud â'r cardiau geirfa ystafell ddosbarth.

| Lladin | Cymraeg |
|---|---|
| Camera / Tectum | Nenfwd |
| Charta | Papur |
| Cista Scutorum | Bin gwastraff |
| Creta | Sialc |
| Erasura | Rhwber |
| Fenestra | Ffenestr |
| Foruli | Cwpwrdd Llyfrau |
| Graphis | Pensil |
| Ianua | Drws |
| Lucerna | Lamp |
| Mensa ad Scribendum | Bwrdd Ysgrifennu |
| Murus | Wal |
| Pictura | Llun |
| Regula | Pren Mesur |
| Scrinium | Desg |
| Sella | Cadair |
| Stilus | Pin ysgrifennu |
| Tabula Atra | Bwrdd Du |
| Transennae | Bleinds |

# Milwyr Ategol






Roedd y gaer garreg yng Ngelligaer yn Gaer Ategol. Er ei bod o dan arweiniad yr 2il Leng Awgwstaidd a rheolaeth penswyddog y Lleng, nid llengfilwyr oedd y gwarchodlu yng Ngelligaer.

Doedd milwyr ategol (o'r gair Lladin "auxilia" – helpu) ddim yn ddinasyddion Rhufeinig fel arfer. Yn wir, roedd y ffaith fod cyfle iddynt ddod yn ddinasyddion Rhufeinig ar ôl iddynt ymddeol yn ddigon i berswadio llawer o bobl i ymuno â'r fyddin. Mae'n debyg mai dyma'r rheswm pam fo'r mwyafrif llethol ohonyn nhw'n wirfoddolwyr.

Fel arfer roedd milwr ategol yn gwasanaethu am 25 mlynedd cyn cael dod yn ddinesydd Rhufeinig. I brofi ei ddinasyddiaeth, byddai milwr yn derbyn "diploma" – sef darn o efydd gydag arysgrif arno. Dim ond ar ôl ymddeol a chael dinasyddiaeth fel hyn y byddai'n cael priodi, ond mae tystiolaeth i'w chael o drefniadau anffurfiol, gyda merched lleol yn aml iawn, cyn i'r dynion ymddeol.

Mae pobl wedi awgrymu bod llawer o lengfilwyr, oedd bob amser yn ddinasyddion, yn feibion i gyn-filwyr ategol.

Roedd y Rhufeiniaid yn realistig iawn am eu galluoedd. Roedden nhw'n gwybod na allan nhw fod yn rhagorol ymhob dull o frwydro felly, i ychwanegu at eu byddinoedd, roedden nhw'n cymryd dynion o'r ardaloedd roedden nhw wedi'u goresgyn oedd yn rhagori mewn technegau brwydro eraill. Mae'n ymddangos bod dynion Silwraidd, efallai o ardal Gelligaer, yn cael eu defnyddio i ffurfio unedau o wŷr meirch ysgafn. Ond doedd milwyr ategol ddim fel arfer yn gwasanaethu yn eu hardaloedd brodorol. Mae'n debyg bod gormod o risg y byddent yn dewis peidio brwydro yn erbyn eu pobl eu hunain os byddai'r bobl hynny'n troi yn erbyn y Rhufeiniaid.

Does dim tystiolaeth i brofi o ble yn Ymerodraeth Rhufain y daeth y milwyr ategol oedd yn byw yng Ngelligaer. O le bynnag y daethent, byddent wedi derbyn eu gorchmynion milwrol yn yr iaith Ladin.

Yn gyffredinol felly, roedd y Rhufeiniaid yn cryfhau eu safle eu hunain gan ddefnyddio cryfderau'r bobl roeddent wedi'u trechu. Gallai unedau ategol gynnwys saethwyr, gwŷr meirch, defnyddwyr ffon dafl, taflwyr gwaywffyn a gwŷr traed ysgafn mwy cyffredinol.

Byddai milwyr ategol yn derbyn llai o gyflog na'r llengfilwyr ac roedden nhw'n edrych yn wahanol. Y gwahaniaethau mwyaf amlwg rhyngddynt oedd siâp y darian, oedd fel arfer yn hirgrwn, a'r gwahaniaeth yn lliwiau'r diwnig. Coch oedd y mwyaf cyffredin i lengfilwyr ond mae'n ymddangos mai'r lliwiau gwyrdd a hufen oedd fwyaf cyffredin i filwyr ategol.

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y cleddyfau a'r cyllyll roedd y ddau'n eu defnyddio, ond er bod milwyr ategol yn taflu gwaywffyn, dim ond y llengfilwyr oedd yn defnyddio pilum (pila oedd y lluosog). Roedd hwn fel gwaywffon ond, yn lle bod â phwynt metel, roedd gan y pila goes hir haearn gyda phen siâp pyramid.

Roedd yn rhaid i filwyr dalu am eu hoffer eu hunain ac mae tystiolaeth i ddangos bod mwy nag un dyn yn defnyddio yr un helmed.

Roedd tua hanner y fyddin Rufeinig wedi'i wneud o filwyr ategol fel y rhai oedd yn byw yng Ngelligaer.

# Dilyn Gorchmynion

Isod mae rhai gorchmynion ychwanegol y gallech eu defnyddio mewn gwers Addysg Gorfforol lle bydd mwy o le nag yn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd fersiynau seinegol o'r ffordd y byddai'r geiriau'n cael eu hynganu mae'n debyg.

| Lladin | Ynganiad seinegol | Cyfieithiad |
|---|---|---|
| Surgite! | (s_r-GI-te) | Safwch! |
| Genua flectite! | (gen-W-a fflec-TI-te) | Penliniwch! |
| State! | (STÂ-te) | Talwch sylw! |
| Procedite attente | (pro-ce-DÎ-te a-TEN-te...M_-we) | Symudwch – Gorymdeithiwch ynghyd... Gorymdeithiwch! |
| Consistite! | (con-sis-TÎ-te) | Arhoswch! |
| Ad dextram clina! | (ad DECS-tram...CLÎN-a) | Wynebwch i'r dde! Neu trowch i'r dde! (os yn gorymdeithio) |
| Ad sinistram clina! | (ad si-NIS-tram...CLÎN-a) | Wynebwch i'r chwith! Neu trowch i'r chwith (os yn gorymdeithio) |
| Transformate...Clina! | (trans-ffor-MA-te...CLÎN-a) | Trowch i wynebu'r ffordd arall neu'r cefn! (os yn gorymdeithio) |
| Accelerate! | (ac-cel-er-A-te) | Cyflymwch, gorymdeithiwch! |
| Mittite | (mi-TI-te) | Taflwch |
| Tardate | (tar-DA-te) | Arafwch |
| Gladios stringite! | (gla-DI-os strin-GI-te) | Tynnwch eich cleddyfau! |
| Gladios condite! | (glad-DI-os con-DI-te) | Rhowch eich cleddyfau i gadw! |
| Laxate! | (lacs-A-te) | Ymlaciwch! |
| Ad signa! | (ad SIG-na) | Ymgasglwch! |
| Dimitto! | (di-MI-to) | Ewch adref! |
| Aciem dirigite! | (a-CI-em dir-i-GI-te) | Gwisgwch! (y llinell) |
| Scuta tollite! | (SCW-ta tol-I-te) | Codwch eich tariannau! |
| Scuta deponite! | (SCW-ta de-po-NI-te) | Tariannau ar lawr! |
| Genua flectite! | (gen-W-a fflec-TI-te) | Penliniwch! (pawb) |

| Latin | Phonetic pronunciation | Translation |
|---|---|---|
| Primi aciem genua flectite! | (PRI-mi a-CI-em gen-W-a flec-TI-te) | Rheng flaen -penliniwch! |
| Surgite! | (swr-GI-te) | Safwch! |
| Spatium date | (sba-TI-wm DA-te) | Gwasgarwch |
| Silentium | (si-len-TI-wm) | Tawelwch |
| Consistite! | (con-sis-TI-te) | Stop! |
| In duos agmen formate, (or) procedite...move! | (in DW-os AG-men ffor-MA-te (neu) pro-ce-DI-te...MW-we) | Ffurfiwch neu gorymdeithiwch mewn colofn o ddau! |
| In unum aciem formate, (or) procedite...move! | (in W-nwm a-CI-em ffor-MA-te) (neu) pro-ce-DI-te...MW-we) | Ffurfiwch neu gorymdeithiwch mewn llinell unigol! |
| In duos aciem formate, (or) procedite...move! | (in DW-os a-CI-em ffor-MA-te) (neu) pro-ce-DI-te...MW-we) | Ffurfiwch neu gorymdeithiwch mewn dwy linell! |
| In quatre aciem formate, (or) procedite...move! | (in cw-A-tre a-CI-em ffor-MA-te) (neu) pro-cce-DI-te...MW-we) | Ffurfiwch neu gorymdeithiwch mewn pedair llinell! |
| Ad sinestram rotate | (ad si-NIS-tram ro-TA-te) | Trowch i'r chwith |
| Ad dextram rotate | (ad DECS-tram ro-TA-te) | Trowch i'r dde |
| Porro | (POR-ro) | Ymosodwch |
| Redite | (re-DI-te) | Dychwelwch i'r blaen gwreiddiol |
| Cuneum formate | (cw-NE-wm ffor-MA-te) | Ffurfiwch siâp lletem (wedge) |
| Quadratum formate | (cwa-DRA-twm ffor-MA-te) | Ffurfiwch sgwâr |
| Testudinem formate | (testw-DI-nem ffor-MA-te) | Ffurfiwch gadgragen |
| Signa sequimini | (SIG-na se-cw-i-MI-ni) | Dilynwch y baneri |
| Parate | (par-A-te) | Parod! |

# Offer Milwyr Rhufeinig

Ateb y chwilair

- GLADIUS
- SCUTUM
- LORICA
- TUNICA
- CALIGAE
- SARCINA
- DOGNAU
- CINGULUM
- PUGIO
- JAVELIN
- RHAW
- CROEN DWR
- CLOG

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | A | T | E | G | S | LL | A | C | I | R | O | L |
| CH | T | R | O | I | A | A | I | DD | A | O | L | C |
| R | A | L | H | R | O | T | N | N | T | E | Y | D |
| C | C | N | P | H | I | S | I | I | E | C | O | R |
| C | Y | I | U | A | S | C | P | O | R | G | O | W |
| I | F | L | F | W | R | O | A | S | N | L | B | D |
| N | A | E | O | A | H | I | R | A | DD | S | S | N |
| G | R | V | S | P | R | G | U | E | I | U | R | E |
| U | E | A | C | I | N | U | T | T | N | I | U | O |
| L | H | J | U | R | E | P | B | N | R | D | S | R |
| U | A | A | T | R | C | A | L | I | G | A | E | C |
| M | N | I | U | Y | L | D | E | CH | S | L | S | E |
| L | A | P | M | S | A | A | E | L | A | G | E | T |

# Y Ditectif Sbwriel – Atebion Posibl

Gallai grwpiau wneud y gweithgaredd yma'n well gyda bagiau o sbwriel i chwilio drwyddynt.

Os yw'r plant yn defnyddio'r rhestrau isod, dylent fod yn gofyn cwestiynau am y cynnwys:

Gallai'r ffaith fod llawer o'r cynnwys yn ymwneud â bwyd arwain y plant i feddwl am gegin ond gallai hefyd wneud iddynt feddwl yn fwy cyffredinol am ddiet. Mae'n weddol debygol y bydd y cynnwys yn gwneud iddynt feddwl am ailgylchu a gellir defnyddio'r ymarfer yma hefyd i wneud iddynt feddwl am wahaniaethau rhwng ein bwydydd ni a bwydydd y Rhufeiniaid. Mae'n annhebygol mai garum oedd y saws!

- Croen tatws
- Bag plastig gyda briwsion bara ynddo
- Potel saws wag
- Mwg wedi torri
- Potel sebon golchi llestri wag
- Plisgyn wyau

Mae'r eitemau yma i gyd yn rhai y gallech eu canfod mewn ystafell ddosbarth. Gellir defnyddio'r eitemau yma i wneud i'r plant feddwl am addysg Rufeinig. Beth allai fod wedi'i ganfod yn lle papur wedi'i grychu? Sut fyddai Rhufeiniaid wedi ysgrifennu? Efallai y byddent yn sylweddoli y gallai'r hyn sydd ar y papur roi mwy o gliwiau iddynt.

- Darn o bapur wedi'i grychu
- Pensil wedi torri
- Rholyn gwag o dâp selo
- Pacedi creision
- Sticer wedi rhwygo

Gallai'r eitemau yma i gyd fod yn perthyn i blentyn, ond dylent sylweddoli y gallent ganfod llawer mwy o gliwiau drwy geisio mwy o wybodaeth. Pa mor fawr oedd y trenyrs? Gallai roi cliw i oedran y plentyn. Pa steil oedden nhw? Gallai gwybod hynny eich helpu i wybod a oeddent yn perthyn i fachgen neu ferch. Beth yn union oedd yr athro wedi'i ysgrifennu? Beth oedd y tegan?

- Hen bâr o drenyrs
- Crys T wedi gwisgo
- Comics
- Llythyr gan athro
- Paced fferins gwag
- Gwaith cartref gyda cola wedi colli arno
- Tegan wedi torri

Gyda'r eitemau yma'n arbennig, dylai'r plant sylweddoli bod ceisio mwy o fanylion yn gyfle iddynt ddysgu llawer mwy, e.e. gallai gweld y bil eu helpu oherwydd gallent weld yn union beth brynwyd yn yr archfarchnad. Hefyd, efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn beth oedd y cylchgrawn.


- Bil o'r archfarchnad
- Papur o far o siocled
- Tun bwyd ci gwag
- Hen gylchgrawn
- Crib wedi torri

**Sbwriel Rhufeinig**

Mae pob un o'r eitemau a restrir yn rhai sydd wedi cael eu canfod mewn baddonau Rhufeinig. Byddai pobl yn bwyta tra'r oeddent yno, ac mae'n ymddangos bod pysgod cregyn yn arbennig o boblogaidd. Efallai y bydd y plant yn ystyried pa bethau eraill allai gael eu canfod yno.

- cregyn
- esgyrn migyrnau moch
- darn o arian
- jar wedi torri gyda gweddillion olew ynddo
- esgyrn cyw iâr

# Grid Archeolegol




Pan fydd y plant yn hyderus ynglŷn â defnyddio'r grid, crewch un ar raddfa fawr i'r grŵp ei ddefnyddio.

Yn ddelfrydol, defnyddiwch fwrdd tywod mawr.

Cyn i'r grŵp ddechrau gweithio, cuddiwch rai eitemau priodol o dan y tywod. Mae arteffactau bach tebyg i rai Rhufeinig yn ddefnyddiol iawn ond dylech gael rhai eitemau eraill hefyd i ddangos nad yw popeth a ganfyddwch wrth gloddio yn bethau hanesyddol! Byddai'n syniad i rai o'r eitemau fod wedi torri neu wedi niweidio, ond nid gydag ymylon miniog. Dylech adael rhai darnau o'r tywod yn wag a gallech roi rhai pethau, efallai gasgliad bach o arian, yn weddol agos at ei gilydd i awgrymu bod un person wedi'u colli nhw i gyd ar yr un pryd. Gallwch ddefnyddio eitemau gweddol gyffredin, megis cregyn, am fod nifer fawr o'r rhain wedi'u canfod ar safleoedd Rhufeinig.

Does dim angen gosod y rhain mewn unrhyw fath o batrwm oherwydd mae rhai pethau'n gorgyffwrdd â gwahanol ddarnau o'r grid wrth gwrs.

Defnyddiwch linyn i rannu'r grid yn sgwariau. Byddai'n syniad gofyn i'r plant wneud hyn a phenderfynu sut maent yn mynd i labelu bob sgwâr ar y grid.

Gofynnwch i bob plentyn yn y grŵp yn eu tro gloddio sgwâr (gan fod yn ofalus i beidio niweidio'r eitemau).

Pan fyddent wedi canfod digon o eitemau (does dim rhaid i bob gr_p ganfod yr eitemau i gyd oherwydd gellir trafod yr eitemau a ganfuwyd yn ddiweddarach gyda'r dosbarth cyfan), gadewch i'r plant eu trin a'u trafod.

- O beth maen nhw wedi'i wneud?
- Pam fo rhai ohonynt o gyfnod ar ôl y Rhufeiniaid?
- I beth gawsent eu defnyddio?
- Pam eu bod nhw wedi goroesi?
- Pa fath o bethau fyddai ddim wedi goroesi?
- Sut allan nhw ein helpu i ddysgu am y bobl oedd ar y tir hwnnw yn y gorffennol?
- Pam fo rhai pethau wedi torri?

Gellir defnyddio'r gweithgaredd yma hefyd i sbarduno tasg o ysgrifennu hanesion llawn dychymyg – gan edrych efallai ar y ffordd y daeth eitem i gael ei cholli neu ei thaflu fel sbwriel.